Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**
DYDDIAD	**15 Tachwedd 2018**
GAN	**Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**

Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio

Deddfwriaeth Ddomestig

- Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) (Cymru a Lloegr) 1999;
- Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999;
- Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2003;
- Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru
Mae'r OS yn cynnwys darpariaethau o fewn maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fo gofyn inni ystyried a chywiro nifer digyffelyb o ddarnau deddfwriaeth o fewn amserlen dynn gan ddefnyddio adnoddau cyfyngedig, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod yn gofyn i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan ar gyfer nifer mawr o offerynnau statudol.

Mae'r OS yn cynnwys cywiriad i un OS sy'n berthnasol i Loegr yn unig, ac o'r herwydd nid oes angen cydsyniad ar ei gyfer. Bydd OS Ymadael â'r UE ar gyfer Cymru yn gwneud y cywiriadau angenrheidiol i'r offeryn statudol cyfatebol ar gyfer Cymru.

Diben y diwygiadau
Diben Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018, i'w cyflwyno gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yw gwneud y newidiadau lleiaf posibl sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod yr holl gyfundrefnau ar gyfer AEA yn parhau'n weithredol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r OSau a'r Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd â nhw, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

Pam y rhoddwyd cydsyniad
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.